

Y CRIW Mentrus



Cynradd Uwch

Gweithgaredd 7: Beth mae pobl eisiau?

Amcan Dysgu

- Cynorthwyo i ddatblygu sgiliau ymchwilio a chyfathrebu.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau

- Gweithio gydag eraill
- Cyfathrebu

Trefniadaeth

- Ymchwil – deall yr amgylchfyd

Gweithgareddau Dysgu

Gofynnwch i'r disgyblion nodi dulliau o ddarganfod beth mae pobl ei eisiau / yn hoffi am gynnyrch/gwasanaeth.

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion feddwl am fanteision ac anfanteision defnyddio dulliau gwahanol e.e. arolygon, grwpiau ffocws, cyfweiliadau un-i-un.

Gofynnwch i'r disgyblion nodi eu marchnad darged a pha ddull fyddai'n well ganddynt ei ddefnyddio a pham?

Gofynnwch i'r disgyblion ddyfeisio cwestiynau ymchwil i'r farchnad syml a phenderfynu sut y byddant yn cael eu defnyddio. Cofiwch:

- gadw'r cwestiynau yn fyr a syml
- ofyn un peth ar y tro
- ddefnyddio geiriau y bydd y rhai sy'n cael eu holi yn eu deall.

Bydd y disgyblion yn cynnal ymchwil i'r farchnad i'w cynorthwyo i ddysgu rhagor am y farchnad lle bydd eu cynnyrch neu eu gwasanaeth yn cael eu gwerthu.

Gofynnwch i'r disgyblion goladu'r ymatebion a chyflwyno'r data mewn ffurfiau priodol e.e siartiau cyfrif, siartiau bar neu graffiau llinell.

Mae'r disgyblion yn ysgrifennu crynodeb o "Beth ddysgon ni?" ac "Ydy ein cynnyrch / gwasanaeth yn syniad da ai peidio?" Mae'r disgyblion yn defnyddio hyn i hysbysu wrth iddynt gynllunio'r busnes.

Gweithgaredd 7: Beth mae pobl eisiau?

Cynradd Uwch

Canlyniad dysgu

Bydd disgyblion yn datblygu sgiliau ymchwilio syml ac yn defnyddio cwestiynau priodol i gaffael gwybodaeth.

Adnoddau fydd eu hangen

- TGCH
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Meysydd Dysgu a Phrofiad

Iechyd a lles

- Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau eraill.

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwranddo

- Gwranddo am ystyr
- Gwranddo er mwyn deall
- Gwranddo fel rhan o ymddiddan cydweithredol

Ysgrifennu

- Cynllunio a threfnu ar gyfer dibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destun gwahanol.

2. Rhifedd

- Casglu data
- Cynrychioli data
- Dehongli data

